Taflen y Tiwtor

Mynediad **< Taflen y Tiwtor >**

Trafod Jig-so

Perthynas â Chyrsiau CBAC

Cwrs Mynediad CBAC. Bydd yr ymarfer hwn yn addas ar ôl Uned 8.

Dull

Pastiwch y llun ar ddarn o gerdyn a thorrwch y llun ar hyd y llinellau. Mae chwe darn i gyd. Bydd eisiau dwy set o gardiau os oes hyd at 12 yn y dosbarth a thair set os oes hyd at 18 yn y dosbarth.

Pwrpas y gweithgarwch yw casglu gwybodaeth am y darn cyfan trwy ofyn cwestiynau. Argymhellir defnyddio'r rhain ond mae modd amrywio.

Beth sy yn y llun?
Mae … yn y llun
Mae hanner ... yn y llun
Oes …yn y llun?
Oes hanner ... yn y llun
Beth mae e'n wneud?
Beth mae hi'n wneud?
Beth maen nhw'n wneud?

Dylai pawb grwydro a gofyn cwestiynau i bawb arall. Ni ddylai unrhyw aelod ddangos ei gerdyn i neb arall. Y gamp yw casglu gwybodaeth am yr hyn sydd yn y 5 darn arall trwy drafod a gwneud nodiadau ar ddarn o bapur.

Ar ddiwedd y gweithgarwch, dylai'r tiwtor gasglu'r darnau ynghyd a threfnu i bawb fynd i grwpiau o 3-5. Dylai'r dysgwyr ddefnyddio'r nodiadau i geisio ailgreu'r llun cyfan ar ddarn o bapur trwy drafod. Ar y diwedd, dylid rhoi cyfle iddynt weld y llun gwreiddiol.

Argymhellir sicrhau bod y dosbarth yn gyfarwydd â'r geiriau hyn cyn dechrau:

cusanu
rhedeg
mynd â'r ci am dro
chwarae pêl-droed
gwthio pram
reidio beic
eistedd ar soffa
gyrru car
teithio mewn bws
yfed cwrw

Mynediad **< Taflen y Myfyrwyr >**

Trafod Jig-so